# Cynnig i symud Ysgol Heol Goffa i safle newydd a chynyddu nifer y lleoedd i 150

## Dogfen Ymgynghori



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

**Rhaglen Moderneiddio Addysg Sir Gaerfyrddin**

Os oes angen y wybodaeth hon arnoch mewn print bras, mewn Braille, neu ar dâp sain, cysylltwch â'r Adran Addysg a Phlant

**E-bost: RhMYYmgynghoriadau@sirgar.gov.uk**

# Cynnwys

**Cyflwyniad** 4
**Yr ysgol sy'n destun cynnig – Ysgol Heol Goffa** 4
**Y Rhesymeg dros Newid** 5
**Y Cynnig** 7
**Ffactorau ychwanegol i'w hystyried wrth lunio, cyhoeddi, cymeradwyo neu benderfynu ar gynigion i ad-drefnu darpariaeth ddysgu ychwanegol** 12
**Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion** 13
**Ansawdd a Safonau mewn Addysg** 14
**Y Broses Ymgynghori** 19
**Asesiad Effaith Integredig** 23
**Atodiad A - Ffurflen Ymateb** 25

# Cyflwyniad

Mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar Gyngor Sir Caerfyrddin i adolygu nifer a math yr ysgolion y mae'n eu cynnal yn yr ardal ac a yw'n llwyddo ai peidio i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau a'r cyfleusterau sydd ar gael i ddarparu'r cyfleoedd y mae plant yn eu haeddu.

Fel rhan o'r broses hon mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei weledigaeth ar gyfer y dyfodol o ran holl ysgolion cynradd ac uwchradd y Sir. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori ynghylch y trefniadau addysg yn y dyfodol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ardal Llanelli.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn amlinellu'r ddarpariaeth a'r opsiynau presennol i benderfynu ar yr ateb gorau ar gyfer diwallu anghenion y dyfodol.

## Yr ysgol sy'n destun cynnig – Ysgol Heol Goffa

| | | **Ysgol Heol Goffa** |
|---|---|---|
| **Lleoliad yr Ysgol** | | Heol Goffa, Llanelli, SA15 3LS |
| **Ystod Oedran** | | 3-19 |
| **Categori'r Ysgol** (Cymunedol, Gwirfoddol a Gynorthwyir, Gwirfoddol a Reolir) | | Ysgol Arbennig |
| **Categori Iaith** | | Cyfrwng Saesneg |
| **Nifer y disgyblion ar y gofrestr (CYBLD Ionawr 2026)** | **Meithrin** | - |
| | **Cynradd** | 32 |
| | **11 i 16** | 71 |
| | **Ôl-16** | 29 |
| | **Cyfanswm** | 132 |
| **Nifer y disgyblion ar y gofrestr yn flaenorol** | **Ionawr 2025** | 127 |
| | **Ionawr 2024** | 123 |
| | **Ionawr 2023** | 120 |
| | **Chwefror 2022** | 111 |
| **Amcanestyniadau ynghylch Nifer y Disgyblion (O CYBLD 2026)** | **Ionawr 2027** | Ddim yn berthnasol |
| | **Ionawr 2028** | Ddim yn berthnasol |
| | **Ionawr 2029** | Ddim yn berthnasol |
| | **Ionawr 2030** | Ddim yn berthnasol |
| | **Ionawr 2031** | Ddim yn berthnasol |
| **Nifer y lleoedd (yn cynnwys oedran meithrin)** | | 118 |
| **Cost fesul disgybl (2026/27)** | | £29,595 |
| **Cyllideb Ysgol (2026/27)** | | £3,492,232 |
| **Canlyniad Arolygiad Estyn** | | Nid mewn categori gweithgarwch dilynol [Estyn - Ysgol Heol Goffa] |
| **Categori Cyflwr Adeilad** | | C |

# Cefndir

## Ysgol Heol Goffa

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynnig darpariaeth gynradd ac uwchradd ar gyfer anawsterau dysgu difrifol/anawsterau dysgu dwys a lluosog yn nwyrain a gorllewin y sir drwy leoliadau arbenigol sy'n gysylltiedig ag ysgolion prif ffrwd. Fodd bynnag, Ysgol Heol Goffa yw'r unig ysgol arbennig annibynnol ar gyfer anawsterau dysgu dwys a lluosog/anawsterau dysgu difrifol yn Sir Gaerfyrddin.

Mae Ysgol Heol Goffa yn ysgol arbennig yn Llanelli ac yn cael ei chynnal gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng 3-19 oed sydd ag anawsterau dysgu difrifol neu anawsterau dysgu dwys a lluosog. Mae gan bob disgybl Gynllun Datblygu Unigol (CDU) a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol. Ysgol Heol Goffa yw'r unig ysgol arbennig yn Sir Gaerfyrddin ac mae'n gwasanaethu dysgwyr o bob rhan o'r sir.

Addysgir y dysgwyr mewn 10 grŵp dosbarth a byddai gan ddosbarth nodweddiadol un athro/athrawes a thri chynorthwyydd addysgu ar gyfer rhwng saith a deg disgybl, yn dibynnu ar angen ac oedran, ond mae'n rhaid i'r ysgol fod yn hyblyg er mwyn diwallu anghenion y plant. Mae'r gymhareb oedolion/disgyblion yn sicrhau y gellir bodloni anghenion gofal ac addysgol unigol y disgyblion. Cefnogir yr ysgol gan y gwasanaeth ffisiotherapi, therapi galwedigaethol a'r gwasanaeth therapi lleferydd ac iaith. Mae seicolegydd addysg a phlant, timau ymgynghorol arbenigol canolog a thîm amhariad ar y synhwyrau yr Awdurdod Lleol hefyd yn gweithio gyda'r ysgol. Mae cyfleusterau'r ysgol yn cynnwys ystafell ddosbarth anawsterau dysgu dwys a lluosog bwrpasol, ystafelloedd synhwyraidd, ardal chwarae meddal, gerddi synhwyraidd awyr agored, cyfleusterau therapi adlam, ardal chwarae antur ac ardaloedd dysgu yn yr awyr agored.

# Y Rhesymeg dros Newid

Ar hyn o bryd, mae mwy o ddisgyblion yn Ysgol Heol Goffa na'r lleoedd sydd ar gael ac mae'r duedd hon yn debygol o barhau yn y dyfodol agos. Mae galw cynyddol am leoedd sy'n rhoi pwysau sylweddol ar yr Awdurdod Lleol i ddod o hyd i leoliadau i ddisgyblion. Mae 118 o leoedd yn Ysgol Heol Goffa ar hyn o bryd ac mae 132 o ddisgyblion ar y gofrestr yn ôl CYBLD Ionawr 2026.

O ganlyniad, mae'r Awdurdod Lleol ar hyn o bryd yn datblygu cynllun i gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Heol Goffa i 150 o leoedd i ddisgyblion 3-19 oed sydd ag anawsterau dysgu difrifol neu anawsterau dysgu dwys a lluosog drwy ddarparu ysgol newydd gyda chyfleusterau sy'n addas i'r 21ain ganrif ar safle newydd sy'n gallu cael ei rannu gyda'r gymuned.

Mae'r safle newydd arfaethedig gerllaw Ysgol Pen Rhos sydd newydd gael ei chwblhau sydd oddeutu 3 milltir o safle'r ysgol bresennol. Mae'r safle ym mherchnogaeth Cyngor Sir Caerfyrddin.

Mae safle a chynllun presennol Ysgol Heol Goffa yn wael, a daw hyn i'r amlwg wrth weld y bysiau mini gorlawn sy'n casglu ac yn gadael plant ar ddechrau a diwedd pob diwrnod ysgol a'r diffyg parcio ar gyfer ceir o flaen yr ysgol.

Nododd arolygiad mwy diweddar gan Estyn a gwblhawyd ym mis Tachwedd 2025 ddiffygion mewn adeiladau yn yr ysgol bresennol oherwydd cynnydd yn nifer y disgyblion. Nododd yr adroddiad nad oedd sawl maes bellach yn addas i'r diben, megis bod ystafelloedd dosbarth yn rhy fach gan gyfyngu ar symudiadau disgyblion, yn enwedig ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn, bod cyfleusterau wedi dyddio a bod diffyg mannau adlam pwrpasol a darpariaeth therapiwtig.


Byddai adeilad arfaethedig newydd yr ysgol yn goresgyn yr anawsterau hyn a nodwyd gan Estyn drwy ddarparu cyfleusterau sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif i ddiwallu anghenion plant ag anghenion mwy cymhleth ac anghenion dysgu ychwanegol dwys. Byddai'r datblygiad arfaethedig yn darparu lle ychwanegol a gwell darpariaeth ar gyfer dysgu disgyblion ôl-16 o ran sgiliau bywyd a sgiliau galwedigaethol yn ogystal â mwy o le a darpariaeth chwarae well ar safle newydd arfaethedig yr ysgol.

Bydd grant gan Lywodraeth Cymru yn ariannu 75% o'r buddsoddiad arfaethedig yn amodol ar gymeradwyo'r achos busnes llawn, a bydd yr Awdurdod Lleol yn cyfrannu'r 25% sy'n weddill.

Bydd gan yr ysgol newydd y manteision canlynol:

- Cynyddu'r lleoedd sydd ar gael i ddisgyblion yr ardal sydd ag anghenion dysgu ychwanegol cymhleth a dwys;
- Cyfleusterau ysgol sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif i ddiwallu anghenion plant ag anghenion mwy cymhleth ac anghenion dysgu ychwanegol dwys.
- Cyfleusterau newydd gyda'r adnoddau gofynnol megis ystafelloedd synhwyraidd, ystafelloedd therapi arbenigol, amgylcheddau dysgu therapiwtig allanol ac ati.
- Gwell amgylchedd dysgu i'r plant a'r bobl ifanc sy'n mynychu'r ysgol newydd;
- Mwy o le a gwell darpariaeth chwarae ar safle'r ysgol;
- Mwy o le a gwell darpariaeth ar gyfer dysgu sgiliau bywyd a sgiliau galwedigaethol i bobl ifanc;
- Darpariaeth arbenigol ac adnoddau arbenigol gydag ystafelloedd therapi ar gael ar safle newydd yr ysgol;
- Amrywiaeth o brofiadau dysgu i ddatblygu annibyniaeth a sgiliau bywyd wrth baratoi at fod yn oedolyn;
- Cyfle i rannu adnoddau gydag Ysgol Pen Rhos gerllaw'r safle newydd arfaethedig; a
- Cyfle i rannu adnoddau gyda'r gymuned leol.

Mae'r graff isod yn dangos nifer y disgyblion yn yr ysgol dros y pum mlynedd diwethaf.




Fel y gwelir o'r graff, mae nifer y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Heol Goffa wedi cynyddu'n raddol yn ystod y pum mlynedd diwethaf i 132 erbyn 2026, sef y nifer uchaf.

### Gwybodaeth am Nifer y Lleoedd

| | **Chwefror 22** | **Ionawr 23** | **Ionawr 24** | **Ionawr 25** | **Ionawr 26** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Heol Goffa** Cyfanswm nifer y lleoedd | 85 | 118 | 118 | 118 | 118 |
| Nifer y Disgyblion | 111 | 120 | 123 | 127 | 132 |
| Lleoedd gwag | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Tu hwnt i nifer y lleoedd | +26 | +2 | +5 | +9 | +14 |

Fel y gwelir o'r tabl, yn ystod y pum mlynedd diwethaf mae mwy o blant yn Ysgol Heol Goffa na'r lleoedd sydd ar gael a disgwylir i'r duedd hon barhau.

Nid yw amcanestyniadau ynghylch nifer y disgyblion yn cael eu cynhyrchu ar gyfer dysgwyr ysgolion arbennig oherwydd bod dulliau rhagolygon cenedlaethol a lleol wedi'u bwriadu ar gyfer disgyblion prif ffrwd o oedran ysgol statudol. Nid yw'r modelau hyn yn ystyried anghenion hynod unigol a chymhleth disgyblion mewn ysgolion arbennig, na'r amrywiad sylweddol o flwyddyn i flwyddyn mewn atgyfeiriadau a derbyniadau. Ni fyddai amcanestyniadau felly yn darparu rhagolygon dibynadwy nac ystyrlon.

## Y Cynnig

Yn dilyn y cynnydd yn y galw am leoedd i ddisgyblion, y cynnig yw:

> Symud Ysgol Heol Goffa i safle newydd a chynyddu nifer y lleoedd i 150 o fis Medi 2029 pan gynigir agor adeilad newydd yr ysgol.

## Lleoliad adeilad newydd yr ysgol

Fel rhan o Raglen Moderneiddio Addysg Sir Gaerfyrddin, mae safle a ffefrir wedi'i nodi ar gyfer adeilad newydd yr ysgol. Mae'r lleoliad arfaethedig gerllaw Ysgol Pen Rhos a gwblhawyd yn ddiweddar, tua 3 milltir o safle presennol yr ysgol, ac mae'n eiddo i Gyngor Sir Caerfyrddin.

## Trafnidiaeth

Mae asesiad manwl o oblygiadau trafnidiaeth wedi'i gynnal. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Heol Goffa angen cludiant arbenigol oherwydd natur eu hanghenion dysgu ychwanegol. Er gall y lleoliad arfaethedig arwain at fwy o amseroedd teithio i rai dysgwyr, bydd hyn yn cael ei wrthbwyso gan:

- gwell mynediad i'r prif lwybrau trafnidiaeth
- Llai o angen am leoliadau y tu allan i'r sir
- cyfleoedd ar gyfer cynllunio llwybrau mwy effeithlon

Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i gyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â chludiant dysgwyr a bydd yn sicrhau bod yr holl drefniadau yn briodol i anghenion disgyblion unigol.

## Tir ac Adeiladau

Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, bydd adeilad presennol Ysgol Heol Goffa yn safle ysgol diangen. Yna bydd yr eiddo yn cael ei drosglwyddo i'r Is-adran Eiddo Corfforaethol yn yr Adran Lle, Seilwaith a Datblygu Economaidd, a fydd yn gweithredu'r prosesau a nodir yn y polisi ynghylch Defnyddio yn y Dyfodol/Gwaredu Tir ac Adeiladau Afraid o ganlyniad i'r Rhaglen Moderneiddio Addysg.

Mae'r polisi hwn yn sicrhau bod y gymuned yn cael y cyfle cyntaf i fynegi diddordeb mewn cael y safle cyn iddo gael ei roi ar y farchnad agored.

## Manteision ac Anfanteision y Cynnig

## Manteision

- Adeilad ysgol newydd gyda chyfleusterau ar gyfer yr 21ain ganrif
  Cyfleusterau pwrpasol
  - Mannau wedi'u dylunio'n benodol ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu dwys a lluosog/anawsterau dysgu difrifol
  - Hygyrchedd gwell, coridorau lletach, ystafelloedd synhwyraidd, mannau therapi, parthau tawel
  - Ystafelloedd dosbarth modern â thechnoleg well
  - Mannau pwrpasol ar gyfer ymyriadau therapiwtig ac arbenigol
- Cynyddu nifer y lleoedd i 150
  - Mwy o leoedd i gynnig darpariaeth yn lleol

    - Lleihau rhestrau aros a lleoliadau y tu allan i'r sir
    - Cadw disgyblion yn agosach at eu teuluoedd a'u cymunedau
- Gwell amgylchedd gwaith i staff
    - Staff yn elwa ar gyfleusterau ac adnoddau modern sy'n cefnogi addysgu a dysgu effeithiol
    - Mwy o le yn caniatáu cydweithio gwell rhwng gweithwyr addysgu, cymorth a gofal iechyd proffesiynol
    - Gwella morâl y staff a chadw staff yn well
- Mwy o le a gwell darpariaeth chwarae yn yr awyr agored ar safle newydd yr ysgol
- Cyfle i rannu adnoddau gydag Ysgol Pen Rhos sydd gerllaw'r safle newydd arfaethedig.
- Cyfle i rannu adnoddau gyda'r gymuned leol.

## Anfanteision

- Angen proses statudol i ysgogi newid.
- Yn dibynnu ar gymeradwyo'r achos busnes i sicrhau cyllid grant o 75% gan Lywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddiad.
- Amser teithio hwy ar gyfer rhai disgyblion.

## Risgiau a Mesurau i'w Lliniaru

| Risg | | Y Mesur i Liniaru'r Risg |
|---|---|---|
| 1. | Methu â chael cymeradwyaeth statudol i weithredu'r broses. | - Dilyn y canllawiau a bennwyd yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2026. |
| 2. | Methu â chael cymeradwyaeth i'r achosion busnes | - Dilyn y canllawiau a nodir yng nghanllawiau achos busnes Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. |
| 3. | Ymgynghoriad anfoddhaol â'r gymuned | - Datblygu strategaeth gyfathrebu ac ymgynghori'n rheolaidd i fynd i'r afael â phryderon. |
| 4. | Galw am y ddarpariaeth yn lleihau | - Annhebygol gan fod y galw am leoedd yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael ar hyn o bryd. |
| 5. | Integreiddio disgyblion i adeilad newydd yr ysgol. | - Bydd yr Awdurdod yn gweithio gyda'r ysgol a'r disgyblion i sicrhau proses bontio ac integreiddio hwylus i'r ysgol newydd. |

## Dalgylch yr Ysgol

Nid oes gan Ysgol Heol Goffa ddalgylch dynodedig. Fel yr unig ysgol arbennig Awdurdod Lleol yn Sir Gaerfyrddin, mae'n gwasanaethu dysgwyr o bob rhan o'r sir.

## Staffio

Rhoddir sylw i'r goblygiadau o ran staffio yn unol â Gweithdrefnau a Pholisi'r Cyngor Sir.

## Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Mae Ysgol Heol Goffa wedi ei gosod yn y categori ysgol arbennig cyfrwng Saesneg (categori 1).

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth dwyieithog i ddysgwyr Sir Gaerfyrddin. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod y ddarpariaeth ddwyieithog yn ein hysgolion a'n hunedau arbennig yn gyfyngedig. Byddwn yn gweithio gyda'r lleoliadau hyn wrth ddatblygu darpariaeth ddwyieithog er mwyn sicrhau bod dysgwyr ag anghenion ychwanegol cymhleth yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth a chymorth dwyieithog yn eu dewis iaith.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymateb yn briodol i gyfarchion Cymraeg a gallant ddefnyddio geiriau cyfarch cyffredin yn y cyd-destun cywir. Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n briodol i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion. Ceir llawer o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru, er enghraifft mae'r disgyblion yn cael mynediad at gyd-destunau go iawn yn Llangrannog a Bluestone i ddefnyddio'r Gymraeg mewn bywyd go iawn. Mae digwyddiadau diwylliannol blynyddol yn cynnwys dathliadau Eisteddfod, Dydd Miwsig Cymru, gweithgareddau'r Urdd, Dydd Gŵyl Dewi, Goldies Cymru, a mentrau ysgol fel "Y Canwr Cudd" a "Pwy wyt ti?". Bwriedir cynnal clybiau ar ôl ysgol pan fydd y safle newydd wedi agor, gan ehangu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

Mae'r cynnig yn cefnogi Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin, yn enwedig Deilliant 5 (cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol), drwy gynyddu cyfleoedd ar gyfer cynnydd yn y Gymraeg mewn carfan ysgol arbennig fawr a thrwy well defnydd cymunedol.

Bydd adeilad newydd yr ysgol yn safoni arwyddion dwyieithog corfforaethol ac yn creu mannau addysgu/ategol ychwanegol sy'n addas ar gyfer clybiau, digwyddiadau a dysgu fel teulu. Mae agosrwydd at y traeth, caffi a'r Ganolfan Iechyd a Llesiant (o fewn pellter cerdded) yn ychwanegu cyd-destunau bywyd go iawn i ddisgyblion ymarfer y Gymraeg yn y gymuned; bydd caffi cymunedol ac eco-siop ar y safle yn ymestyn y rhyngweithiadau hyn. Disgwylir y bydd symud yr ysgol

yn cynyddu cyfleoedd dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg drwy well cyfleusterau, cyfoethogi ehangach a chysylltiadau cryfach â'r gymuned.

## Goblygiadau Ariannol - Refeniw

Caiff Ysgol Heol Goffa ei chyllido yn unol â pholisi Ariannu Teg y Cyngor Sir a bydd yn derbyn adnoddau ar yr un sail ag unrhyw ysgol arall yn y Cyngor Sir, a hynny yn seiliedig ar nifer y disgyblion a chyfleusterau'r ysgol newydd.

## Gwariant Cyfalaf

Bydd y buddsoddiad cyfalaf yn amodol ar i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r achos busnes llawn. Ar hyn o bryd cyfradd ymyrraeth grant Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau cyfalaf ysgolion arbennig yw 75% o'u cost, gyda'r Awdurdod Lleol yn ariannu'r 25% sy'n weddill.

## Derbyniadau Cyfalaf

Bydd unrhyw dderbyniadau cyfalaf a geir o ganlyniad i'r cynnig hwn yn cael eu hailfuddsoddi yn y Rhaglen Moderneiddio Addysg.

## Trefniadau Pontio

Yn ystod y cyfnod pontio bydd disgyblion yn aros ar safle presennol yr ysgol nes y bydd adeilad newydd yr ysgol yn barod.

Gan fod gan lawer o ddisgyblion Ysgol Heol Goffa anghenion dysgu, cyfathrebu, synhwyraidd neu gorfforol cymhleth, bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gyda'r ysgol i sicrhau bod y broses symud yn cael ei chynllunio'n ofalus ac yn sensitif i anghenion unigol pob plentyn.

Bydd rhaglen bontio fesul cam yn cael ei rhoi ar waith, a fydd yn helpu i sicrhau bod y disgyblion yn elwa ar broses bontio hwylus, â chefnogaeth dda, a'u bod yn teimlo'n ddiogel, yn hyderus ac yn barod wrth iddynt ymgartrefu yn yr amgylchedd ysgol newydd.

## Trefniadau Derbyn

Mae plant yn cael eu derbyn i Ysgol Heol Goffa drwy gyfrwng panel cynhwysiant sy'n cynnwys Penaethiaid a chynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol. Gwneir atgyfeiriadau i'r panel derbyn gan yr Adran Addysg drwy'r panel lleoliadau ar ôl asesu ac ymgynghori â chynrychiolwyr o'r Adrannau Addysg, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac maent yn amodol ar fodloni'r meini prawf derbyn drwy ddarparu tystiolaeth.

## Dewisiadau Eraill a Ystyriwyd

Wrth ddatblygu opsiwn a ffefrir, bu'r Awdurdod yn ystyried amrywiaeth o opsiynau.

| | | |
|---|---|---|
| Opsiwn 1 | Status Quo – Mae'r disgyblion yn aros yn eu hysgol bresennol. | Diystyriwyd oherwydd diffyg lle o ran y nifer sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd, safle cyfyngedig. |
| Opsiwn 2 | Ailwampio/ailfodelu safle presennol yr ysgol i gynyddu nifer y lleoedd. | Dim digon o fannau awyr agored i ddatblygu safle presennol yr ysgol i gynyddu nifer y lleoedd a darparu digon o le awyr agored yn unol â gofynion y bwletin adeiladu. |
| Opsiwn 3 *(Yr opsiwn a ffefrir)* | Adeiladu ysgol newydd ar gyfer 150 o blant gan ddarparu cyfleusterau sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu difrifol ac anawsterau dysgu dwys a lluosog. | Opsiwn cyraeddadwy a fforddiadwy i ddarparu cyfleusterau sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif yn y tymor canolig i'r tymor hir i ddisgyblion Ysgol Heol Goffa. |
| Opsiwn 4 | Adeiladu ysgol newydd ar gyfer 250 o blant gan ddarparu cyfleusterau sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif ar gyfer darpariaeth anawsterau dysgu difrifol, anawsterau dysgu dwys a lluosog a chyflyrau'r sbectrwm awtistig. | Diystyriwyd oherwydd cyfyngiadau'r gyllideb. |

# Yr ysgolion y bydd y cynnig hwn yn effeithio arnynt

Nid oes gan Ysgol Heol Goffa ddalgylch dynodedig. Fel yr unig ysgol arbennig Awdurdod Lleol yn Sir Gaerfyrddin, mae'n gwasanaethu dysgwyr o bob rhan o'r sir, ac felly rhoddir gwybod i bob ysgol am y cynnig.

## Ffactorau ychwanegol i'w hystyried wrth lunio, cyhoeddi, cymeradwyo neu benderfynu ar gynigion i ad-drefnu darpariaeth ddysgu ychwanegol

## Safonau'r ddarpariaeth

- ***A fydd y cynigion yn gwella safonau ystafelloedd neu adeiladau i ddysgwyr ag ADY, gan gynnwys hygyrchedd adeiladau***

  Bydd y cynigion yn darparu:

- Mannau wedi'u dylunio'n benodol ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu dwys a lluosog/anawsterau dysgu difrifol
- Hygyrchedd gwell, coridorau lletach, ystafelloedd synhwyraidd, mannau therapi, parthau tawel
- Ystafelloedd dosbarth modern â thechnoleg well
- Mannau pwrpasol ar gyfer ymyriadau therapiwtig ac arbenigol.

- ***Sut y bydd y cynigion yn ymdrin ag unrhyw faterion o ran iechyd, diogelwch a lles***

  Bydd y cynigion yn darparu:
  - Gwell cyfleusterau meddygol a chraidd fel ystafelloedd meddygol, teclynnau codi a chyfleusterau modern eraill yr 21ain ganrif
  - Safonau adeiladu modern i sicrhau diogeledd a diogelwch rhag tân
  - Llwybrau gwacáu clir ynghyd ag ardaloedd ac allanfeydd tân hygyrch ar gyfer disgyblion ag anghenion symudedd
  - Amgylchedd llonyddol, ysgogiad isel i helpu i leihau gorbryder
  - Ystafelloedd tawel, mannau synhwyraidd ac ardaloedd therapiwtig i gefnogi llesiant
  - Golau naturiol a lliwiau llonyddol ynghyd ag acwsteg sy'n lleihau straen.

- ***Sut y bydd y cynigion yn hyrwyddo rhagor o gynhwysiant, lle y bo'n briodol***

  Bydd ysgol arbennig bwrpasol newydd yn hyrwyddo cynhwysiant drwy greu amgylchedd lle mae pob disgybl yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a'i gefnogi a lle mae'n cael cyfle cyfartal i ffynnu.
  - Bydd y dyluniad:
    - yn sicrhau bod yr ysgol yn hygyrch i bob disgybl drwy ddarparu drysau llydan, rampiau a mannau sy'n ystyriol o'r synhwyrau
    - yn darparu mannau dysgu amlsynhwyraidd gan sicrhau bod pob disgybl yn gallu cymryd rhan yn llawn.

- ***Effaith cynigion ar DDdY arall yn ardal agos ac ehangach yr awdurdod lleol gan gynnwys y tu allan i'r sir lle y bo'n briodol.***

  Ysgol Heol Goffa yw'r unig ysgol arbennig yn Sir Gaerfyrddin felly nid ydym yn disgwyl i'r cynigion gael effaith negyddol ar ddarpariaeth arall yn yr ardal.

## Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff perthnasol ystyried y pwyntiau canlynol mewn perthynas â'r angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion:

- ***A oes angen am fath penodol o ddarpariaeth DDdY yn yr ardal***

  Ysgol Heol Goffa yw'r unig ysgol arbennig yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r niferoedd ar y gofrestr wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y 10 mlynedd diwethaf i 132, sef y nifer uchaf, erbyn ffigurau CYBLD Ionawr 2026.

  Mae'r holl leoliadau arbenigol ar draws Sir Gaerfyrddin yn llawn ar hyn o bryd, ac nid oes lleoedd ADY gwag yn y sir. Disgwylir i'r pwysau hyn barhau oherwydd y nifer cynyddol o ddisgyblion sydd angen cymorth arbenigol cymhleth, ochr yn ochr â nodi anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar yn fwy cywir. Bwriad yr ysgol arbennig newydd arfaethedig â 150 o leoedd yw diwallu'r angen hwn yn gynaliadwy ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hir.

- ***A oes gormod o ddarpariaeth DDdY yn yr ardal***

  Nid oes lleoedd ADY gwag yn Sir Gaerfyrddin; mae'r holl leoliadau arbenigol yn llawn.

- ***A fyddai'r DDdY yn fwy effeithiol neu effeithlon pe bai darpariaeth ranbarthol yn cael ei gwneud***

  Yn y rhan fwyaf o achosion, mae rhagdybiaeth mai darpariaeth leol yn yr ysgol leol yn y gymuned lle mae'r dysgwr yn byw sydd orau. Fodd bynnag, ar gyfer nifer fach benodol o achosion o anghenion cymhleth iawn, argymhellir cynllunio rhanbarthol ar gyfer darpariaeth ranbarthol.

- ***Effaith y cynigion hynny ar gludiant dysgwyr ag ADY.***

  Drwy gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Heol Goffa bydd yn darparu mwy o leoedd i gynnig darpariaeth yn lleol yn ogystal â:
    - Lleihau rhestrau aros a lleoliadau y tu allan i'r sir
    - Cadw disgyblion yn agosach at eu teuluoedd a'u cymunedau

## Ansawdd a Safonau mewn Addysg

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) yn gofyn am ddadansoddiad o effaith debygol y cynigion ar ansawdd a safonau addysg yn yr ysgol, gan ystyried meysydd arolygu perthnasol Estyn. Nodir y rhain yn yr adran ganlynol.

Bydd yr ysgol yn symud i gyfleuster pwrpasol, modern â mwy o leoedd ac adnoddau gwell, sydd wedi'i gynllunio i ddiwallu anghenion disgyblion yn well yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r Awdurdod Lleol o'r farn, pe bai'n cael ei roi ar waith, na fyddai'r opsiwn hwn yn cael effaith negyddol ar safonau addysg yn gyffredinol nac ar gynnydd disgyblion.

Cafodd Ysgol Heol Goffa ei harolygu ddiwethaf gan Estyn ym mis Tachwedd 2025. Nodir canfyddiadau'r adroddiad isod:

**Dysgu - safonau a chynnydd yn gyffredinol:**

Nodir y canlynol yn adroddiad arolygu'r ysgol gan ESTYN:

- Mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyson a phwrpasol ar draws ystod eang o fedrau, sy'n briodol i'w hanghenion unigol.
- Mae llawer yn datblygu sgiliau darllen, ysgrifennu a chyfathrebu cynnar yn llwyddiannus ac yn dod yn ddarllenwyr a chyfathrebwyr cynyddol hyderus gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau.
- Mae disgyblion yn cymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a digidol mewn cyd-destunau ystyrlon a bywyd go iawn, fel creu posteri, dehongli data syml a chyfrannu at brosiectau amlgyfrwng.
- At ei gilydd, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da ar draws meysydd medrau allweddol ac yn ymgysylltu'n hyderus mewn cwricwlwm eang a chyfoethog.
- Cefnogir datblygiad corfforol trwy weithgareddau ar y safle ac oddi ar y safle sy'n magu cryfder, gwydnwch a hyder disgyblion ac mae medrau cymdeithasol yn gryfder sylweddol wrth i ddisgyblion ryngweithio'n gadarnhaol a chyfathrebu'n hyderus â chyfoedion ac oedolion.

**Effaith y Cynnig**

Disgwylir i'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar ddysgu a chynnydd disgyblion. Bydd ysgol bwrpasol newydd â chyfleusterau gwell yn darparu amgylchedd dysgu gwell, mwy o fynediad at fannau ac adnoddau arbenigol, a mwy o gyfleoedd i gefnogi cyfathrebu, annibyniaeth a datblygiad corfforol. Mae hyn yn debygol o gryfhau ymgysylltiad disgyblion, llesiant a deilliannau addysgol cyffredinol ymhellach.

**Llesiant ac agweddau at ddysgu:**

- Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a chefnogol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, bod croeso iddynt a'u bod yn cael eu parchu.
- Mae'r perthnasoedd cryf rhwng staff a disgyblion yn sail i hyder, rheoleiddio emosiynol a pharodrwydd disgyblion i ymgysylltu â dysgu.
- Mae bron pob disgybl yn dangos ymddygiad cadarnhaol iawn ac mae llawer yn gwneud gwelliannau cryf mewn hunanreoleiddio a chyfathrebu dros amser.
- Mae tîm llesiant dynodedig yn darparu cymorth therapiwtig a synhwyraidd gwerthfawr, ac mae arferion dyddiol sydd wedi'u strwythuro'n dda yn cyfrannu at amgylchedd tawel ac anogol.
- Mae gweithgareddau cyfoethogi megis prosiectau menter, profiadau preswyl ac ymweliadau diwylliannol yn helpu disgyblion i ddatblygu gwydnwch, annibyniaeth a rheoleiddio emosiynol mewn cyd-destunau bywyd go iawn.
- Fodd bynnag, mae diffygion mewn adeiladau yn cael effaith negyddol ar lesiant ac annibyniaeth disgyblion ac ar fynediad at y cwricwlwm, gan fod llawer o'r ystafelloedd dosbarth yn rhy fach ac mae'r cyfleusterau i gefnogi byw yn annibynnol wedi dyddio.

**Effaith y Cynnig**

Disgwylir i'r cynnig, os caiff ei fabwysiadu, gael effaith gadarnhaol ar lesiant ac agweddau disgyblion at ddysgu. Bydd ysgol bwrpasol newydd ag adeiladau

gwell a chyfleusterau arbenigol yn mynd i'r afael â chyfyngiadau'r adeilad presennol, gan ddarparu lle mwy priodol i gefnogi annibyniaeth, ymyriadau therapiwtig a rheoleiddio emosiynol. Mae hyn yn debygol o gryfhau amgylchedd meithringar yr ysgol ymhellach a chefnogi ymddygiad cadarnhaol, ymgysylltu a llesiant cyffredinol parhaus.

**Profiadau addysgu a dysgu (ystod, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm, ac addysgu ac asesu):**

- Mae'r addysgu yn bwyllog, yn bwrpasol ac yn strwythuredig, ar y cyfan, ac mae arferion rhagweladwy yn cefnogi parodrwydd disgyblion i ddysgu.
- Mae gan staff ddealltwriaeth gadarn o anghenion disgyblion ac yn cynllunio gweithgareddau clir ac iddynt ddilyniant da sy'n cynnwys archwilio synhwyraidd, dysgu yn yr awyr agored, gwaith grŵp a thasgau creadigol i gynnal ymgysylltiad ac atgyfnerthu cysyniadau allweddol.
- Pan mae'r addysgu ar ei gryfaf, mae staff yn modelu iaith yn fedrus gan ddefnyddio dull cyfathrebu cyflawn ac yn holi disgyblion yn effeithiol i annog annibyniaeth.
- Mae arferion asesu yn ystyrlon, ac mae staff yn darparu adborth di-oed ar lafar ac yn addasu addysgu mewn ymateb i arsylwi parhaus.
- Mae'r cwricwlwm yn eang ac yn uchelgeisiol ac yn cyd-fynd â Chwricwlwm i Gymru ac mae dysgu'r tu allan i'r ystafell ddosbarth yn gryfder arbennig sy'n gwella annibyniaeth a medrau bywyd.
- Mewn ychydig iawn o achosion, mae cyflymdra'r gwersi'n llai effeithiol, mae acwsteg ystafell ddosbarth yn rhwystro sylw, ac mae fformatau dosbarth cyfan yn lleihau cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio targedig.

**Effaith y Cynnig**

Disgwylir i'r cynnig, os caiff ei fabwysiadu, gael effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgu ac addysgu. Bydd ysgol bwrpasol newydd ag amgylchedd dysgu gwell, acwsteg well a mynediad at fannau addysgu arbenigol yn cefnogi amrywiaeth o ddulliau addysgegol yn well, gan gynnwys gwaith grŵp wedi'i dargedu a dysgu synhwyraidd. Mae hyn yn debygol o gryfhau'r broses o gyflwyno'r cwricwlwm eang ac uchelgeisiol ymhellach a gwella ymgysylltiad a chynnydd i bob dysgwr.

**Gofal, cymorth ac arweiniad (datblygiad personol a diogelu):**

- Mae trefniadau diogelu yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu hamddiffyn ac mae staff yn deall eu cyfrifoldebau ac yn adrodd am bryderon yn briodol.
- Mae arweinwyr yn gweithio'n gadarnhaol gyda phartneriaid i hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o aros yn ddiogel.
- Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda theuluoedd a'r gymuned, gan helpu disgyblion i feithrin empathi, cyfathrebu ac ymdeimlad o berthyn.
- Mae staff yn gwneud addasiadau pwrpasol i ddiwallu anghenion synhwyraidd ac anghenion bwydo disgyblion, gan ehangu eu profiadau deietegol dros gyfnod.

**Effaith y Cynnig**

Disgwylir i'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar ofal, cymorth ac arweiniad. Bydd ysgol bwrpasol newydd â chyfleusterau gwell yn darparu lleoedd gwell ar gyfer cymorth therapiwtig ac ymyriadau wedi'u personoli, gan alluogi staff i ddiwallu anghenion cymhleth y disgyblion yn fwy effeithiol. Mae hyn yn debygol o gryfhau arferion diogelu, cefnogi gweithio amlasiantaeth agosach a gwella datblygiad personol, iechyd a llesiant cyffredinol disgyblion.

**Arweinyddiaeth (ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr, prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant, a dysgu proffesiynol):**

- Mae arweinwyr Ysgol Heol Goffa yn darparu arweinyddiaeth sicr ac ymroddedig.
- Mae'r pennaeth yn cynnig cyfeiriad pwyllog a phwrpasol, wedi'i gefnogi'n gryf gan uwch arweinwyr. Gyda'i gilydd, maent wedi creu tîm staff hynod ymroddgar ac yn rhoi pwysigrwydd cyfartal i lesiant disgyblion a staff, fel ei gilydd, sy'n sicrhau bod gofal, diogelwch a chymorth emosiynol yn ganolog i waith yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu at ddiwylliant ysgol cadarnhaol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn gallu gwneud cynnydd pwrpasol.
- Mae'r strwythur arweinyddiaeth yn cefnogi addysgu, dysgu, llesiant a gweithrediadau o ddydd i ddydd yn briodol.
- Mae arweinwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i gynnal ysgol lle mae disgyblion yn hapus, yn mynychu'n dda ac yn gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu a'u llesiant. Mae arweinwyr canol yn magu hyder wrth iddynt ddatblygu eu rolau o fewn y strwythur hwn.
- Mae llywodraethwyr yn darparu cymorth a her effeithiol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol, ei meysydd i'w datblygu a chyfyngiadau ariannol.

**Effaith y Cynnig**

Disgwylir i'r cynnig, os caiff ei fabwysiadu, gael effaith gadarnhaol ar arweinyddiaeth a rheolaeth. Bydd ysgol bwrpasol newydd yn helpu arweinwyr i gryfhau cynllunio strategol ac effeithiolrwydd gweithredol drwy ddarparu adeiladau sy'n cyd-fynd â gofynion o ran nifer y lleoedd a gweledigaeth hirdymor yr ysgol. Mae cynyddu nifer y disgyblion yn debygol o helpu i drefnu staff a defnyddio adnoddau mewn modd mwy effeithlon, gan gyfrannu at fwy o gynaliadwyedd a galluogi arweinwyr i wella prosesau sicrhau ansawdd, dysgu proffesiynol a gwella ysgol gyfan ymhellach.

**Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag ADY a dysgwyr o gefndiroedd economaidd ddifreintiedig;**

- Mae'r ysgol yn darparu lleoliadau ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 19 oed ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n gorgyffwrdd. Mae gan bob un o'r disgyblion ADY, gan gynnwys anawsterau dysgu difrifol, anghenion

lleferydd, iaith a chyfathrebu, anawsterau dysgu dwys a lluosog, ac anghenion corfforol a meddygol sylweddol.

- Mae llawer o ddisgyblion yn awtistig neu'n profi anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol, ac mae gan leiafrif ohonynt amhariadau synhwyraidd, sy'n dangos rôl yr ysgol wrth gefnogi dysgwyr ag anghenion cymhleth iawn.
- Mae gan bron bob un o'r disgyblion gynllun datblygu unigol, gan sicrhau bod y ddarpariaeth wedi'i haddasu'n agos i'w gofynion datblygiadol a dysgu.
- Mae ychydig llai na hanner o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n dangos bod yr ysgol yn cefnogi cyfran sylweddol o ddysgwyr o gefndiroedd dan anfantais economaidd.
- Mae staff yn dangos dealltwriaeth hynod gryf o anghenion disgyblion, ac yn darparu cymorth gwresog ac urddasol. Mae perthnasoedd cadarnhaol yn sail i hyder, rheoleiddio emosiynol a pharodrwydd disgyblion i ymgysylltu â dysgu.
- Mae arweinwyr yn sicrhau bod disgyblion ag anghenion dysgu dwys a lluosog yn elwa ar brofiadau addasedig ac ystyrlon sy'n ehangu gorwelion ac yn cefnogi gwydnwch, annibyniaeth a rheoleiddio emosiynol.
- Mae staff yn gwneud addasiadau pwrpasol i ddiwallu anghenion synhwyraidd ac anghenion bwydo disgyblion, gan helpu disgyblion i archwilio bwydydd newydd ac ehangu eu profiadau deietegol dros gyfnod.
- Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda theuluoedd a'r gymuned, gan gefnogi cyfathrebu, empathi ac ymdeimlad cryf o berthyn i ddysgwyr agored i niwed.

**Effaith y Cynnig**

Disgwylir i'r cynnig, os caiff ei fabwysiadu, gael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr sy'n agored i niwed. Bydd ysgol bwrpasol newydd â chyfleusterau arbenigol gwell yn darparu gwell hygyrchedd, mannau therapiwtig ac amgylchedd dysgu sy'n fwy addas i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol cymhleth. Mae hyn yn debygol o helpu i ddarparu ymyriadau wedi'u personoli yn fwy effeithiol, hyrwyddo mwy o annibyniaeth a chynhwysiant, a helpu i leihau rhwystrau i ddysgu ar gyfer disgyblion, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd dan anfantais economaidd, a thrwy hynny wella tegwch a deilliannau addysgol.

**Blaenoriaethau cyfredol yr ysgol / argymhellion Estyn:**

Cafodd Ysgol Heol Goffa ei harolygu ddiwethaf gan Estyn ym mis Tachwedd 2025 ac ar hyn o bryd nid yw mewn categori 'gweithgarwch dilynol'.
Argymhellion Estyn:

A1 Mynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd yn y llythyr diogelu

A2 Cryfhau systemau sicrhau ansawdd a darparu atebolrwydd cliriach ar draws rolau arwain

## Y Broses Ymgynghori

Bydd yr ymgynghori ynghylch y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon yn dilyn y canllawiau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r hyn a nodwyd yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026).

### Â phwy yr ymgynghorir?

Bydd dolen i'r Ddogfen Ymgynghori yn cael ei darparu i'r rhanddeiliaid canlynol (fel y pennir gan y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026)):

- Rhieni (a darpar rieni os oes modd), gofalwyr a gwarcheidwaid dysgwyr sydd ar hyn o bryd yn mynychu ysgolion sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigydd yn ystyried y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arni;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid dysgwyr sy'n mynychu ysgolion cynradd y mae dysgwyr fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i'r ysgol uwchradd honno;
- aelodau o staff ysgolion sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigydd yn ystyried y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arni;
- awdurdod cynhaliol neu awdurdod cynhaliol arfaethedig yr ysgolion sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigydd yn ystyried y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arni (gan gynnwys timau trafnidiaeth a phriffyrdd perthnasol);
- unrhyw awdurdod lleol arall (gan gynnwys awdurdodau lleol yn Lloegr, lle y bo'n briodol) y mae'r cynigydd yn ystyried y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arno, gan gynnwys yn achos DDdY benodedig unrhyw awdurdod sy'n lleoli neu sy'n debygol o leoli dysgwyr ag ADY yn yr ysgol sy'n destun y cynigion;
- Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig Rufeinig ar gyfer yr ardal y lleolir yr ysgol sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgolion eraill y mae'r cynigydd yn ystyried y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arnynt ynddi;
- unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigydd yn ystyried y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arni;
- corff llywodraethu unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigydd yn ystyried y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arni;
- Gweinidogion Cymru;
- Aelodau o Senedd Cymru ac Aelodau o Senedd y DU sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion;
- Estyn;
- undebau athrawon ac undebau staff sy'n cynrychioli athrawon ac aelodau eraill o staff mewn unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion;
- y gwasanaethau gwella ysgolion perthnasol;

- Comisiynydd Heddlu a Throseddu yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy’n destun y cynigion;
- unrhyw gyngor cymuned neu gyngor tref ar gyfer yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy’n destun y cynigion;
- yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu’r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, lle maent yn bodoli;
- gwasanaeth gwybodaeth i deuluoedd yr awdurdod lleol, unrhyw ddarparwyr annibynnol neu wirfoddol y mae’r cynigion yn debygol o effeithio arnynt a’r sefydliadau ambarél cenedlaethol sy’n eu cefnogi - Mudiad Meithrin, NDNA Cymru, Clybiau Plant Cymru, Blynyddoedd Cynnar Cymru, PACEY Cymru a Chwarae Cymru;
- yn achos cynigion sy’n effeithio ar DDdY, unrhyw gyrff iechyd perthnasol neu gyrff perthnasol yn y trydydd sector sydd â buddiant ym marn y cynigydd;
- yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy’n gwasanaethu ardal yr ysgol sy’n destun y cynigion;
- yn achos cynigion sy’n effeithio ar chweched dosbarth ysgolion, Medr; ac
- yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth iaith Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg a Mentrau Iaith.

**Ymgynghori â Disgyblion**

Bydd disgyblion yn cael copi o Ddogfen Ymgynghori â Phlant a Phobl Ifanc.

Hefyd, bydd cyfle i ddisgyblion (y Cyngor Ysgol o leiaf) yr ysgolion sy'n destun y cynigion gymryd rhan yn y broses ymgynghori yn ystod sesiwn a gynhelir gan Ymgynghorydd Cymorth Addysg.

Bydd y wybodaeth a gesglir o'r sesiynau ymgynghori â'r disgyblion yn rhan o'r Adroddiad Ymgynghori a gyflwynir i'r Cabinet i'w ystyried yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

## Y Broses Statudol

### Cam 1. Cyfnod Ymgynghori

Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynigion yn dechrau ar 9 Mehefin 2026 ac yn dod i ben ar 21 Gorffennaf 2026

Gall ymgyngoreion gyflwyno'u sylwadau o blaid neu yn erbyn cynnig. Ni fydd yr ymatebion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol. Os dymuna ymgyngoreion wrthwynebu, bydd angen iddynt wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol.

**Ystyried eich sylwadau**
Yn ystod y cyfnod ymgynghori gallwch ofyn cwestiynau, mynegi eich barn neu ddarparu opsiynau eraill i'w hystyried erbyn 21 Gorffennaf 2026 fan bellaf drwy un o'r dulliau canlynol:

- Llenwi arolwg ar-lein gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol: AROLWG SNAP

- Anfon neges e-bost i: RhMYYmgynghoriadau@sirgar.gov.uk

- Ysgrifennu llythyr i'r cyfeiriad canlynol: Mr Owain Lloyd, Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden, Neuadd y Sir, Rhiw'r Castell, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 1JP

- Neu lenwi copi papur o'r ffurflen ymateb (Atodiad A) a'i dychwelyd at Mr Owain Lloyd, Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden, Neuadd y Sir, Rhiw'r Castell, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP neu RhMYYmgynghoriadau@sirgar.gov.uk

Nodwch mai dim ond drwy **un** dull cyfathrebu y mae angen i chi gyflwyno'ch ymateb.

Bydd sylwadau a gyflwynir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu cofnodi a'u crynhoi mewn Adroddiad Ymgynghori.

Ar ôl y cyfnod ymgynghori, bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin o leiaf bythefnos cyn cyhoeddi Hysbysiad Statudol.

Bydd Cabinet Cyngor Sir Caerfyrddin yn ystyried yr Adroddiad Ymgynghori ac yn penderfynu a yw am fynd ymlaen â'r cynnig ai peidio.

## Cam 2. Cyfnod Gwrthwynebu o ran yr Hysbysiad Statudol

Os yw'r Cabinet yn penderfynu mynd ymlaen â'r cynnig mae'n rhaid i Gyngor Sir Caerfyrddin gyhoeddi Hysbysiad Statudol.

Bydd yr Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin a'i osod yn yr ysgolion sy'n destun cynigion. Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael i'r ysgolion eu dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid ac aelodau staff (gall yr ysgolion hefyd ddosbarthu'r hysbysiad drwy e-bost).

Bydd yr Hysbysiad Statudol yn amlinellu manylion y cynnig ac yn gwahodd unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu neu gefnogi i wneud hynny'n ysgrifenedig cyn pen 28 o ddiwrnodau.

Os bydd gwrthwynebiadau yn dod i law cyhoeddir Adroddiad Gwrthwynebu ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Bydd copïau papur o'r adroddiad hefyd ar gael ar gais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion neu'r sylwadau cefnogol a godwyd ac yn rhoi ymateb Cyngor Sir Caerfyrddin.

Os na fydd unrhyw wrthwynebiadau yn dod i law, mae'r cynnig yn symud yn syth i benderfyniad.

**Cam 3. Penderfyniad**

Cyngor Sir Caerfyrddin fydd yn penderfynu ar y cynnig. Gall y Cyngor Sir benderfynu cymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r cynnig â newidiadau. Wrth wneud hynny, bydd y Cyngor Sir yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau statudol a ddaeth i law.

Ar ôl penderfynu ynghylch y cynigion rhoddir gwybod i'r holl bartïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

Bydd yr holl randdeiliaid yn cael eu hysbysu am benderfyniad y Cyngor Sir a chyhoeddi'r Adroddiad Gwrthwynebu cyn pen 7 diwrnod ar ôl y penderfyniad.

## Llinell Amser y Broses Statudol

Dyma linell amser ddangosol ar gyfer y broses statudol:

| Cam | Disgrifiad | Hyd |
|---|---|---|
| 1 | **Ymgynghori**<br>Dosbarthu'r Ddogfen Ymgynghori hon i bartïon penodol a phartïon eraill sydd â diddordeb. | **Mehefin 2026 – Gorffennaf 2026**<br><br>O leiaf 42 diwrnod (gan gynnwys o leiaf 20 diwrnod ysgol) |
| 2 | **Adroddiad Ymgynghori**<br>Bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet er mwyn penderfynu a ddylid mynd ati i gyhoeddi hysbysiad statudol ai peidio.<br>NEU fel arall, daw'r cynnig i ben. | **Hydref 2026**<br>Bydd yr Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin o leiaf bythefnos cyn cyhoeddi hysbysiad statudol. |
| 3 | **Hysbysiad Statudol**<br>Os gwneir y penderfyniad i fwrw ymlaen yna cyhoeddir hysbysiad statudol. Bydd yr hysbysiad yn amlinellu manylion y | **Tachwedd 2026 – Rhagfyr 2026** |

| | | |
|---|---|---|
| | cynnig ac fe'i cyhoeddir ar wefan y Cyngor a'i arddangos ger mynedfa'r ysgol a'r ysgolion sy'n destun y cynigion. Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael i'r ysgol eu dosbarthu i'r rhieni, i'r gwarcheidwaid, ac i'r staff.<br><br>Bydd yr hysbysiad statudol yn rhoi manylion ynghylch y modd y gallwch gofnodi eich gwrthwynebiadau i'r cynnig. | O leiaf 28 diwrnod (gan gynnwys o leiaf 15 diwrnod ysgol) |
| 4 | **Adroddiad Gwrthwynebu**<br><br>Os bydd gwrthwynebiadau yn dod i law cyhoeddir Adroddiad Gwrthwynebu ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Bydd copïau papur o'r adroddiad hefyd ar gael ar gais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion neu'r sylwadau cefnogol a godwyd ac yn rhoi ymateb Cyngor Sir Caerfyrddin.<br><br>Os na fydd unrhyw wrthwynebiadau yn dod i law, mae'r cynnig yn symud yn syth i benderfyniad. | **Mawrth 2027**<br><br>Cyhoeddi'r adroddiad cyn pen 28 diwrnod ar ôl diwedd y cyfnod gwrthwynebu |
| 5 | **Penderfyniad**<br><br>Y Cyngor Sir fydd yn penderfynu ar y cynnig. Gall y Cyngor Sir benderfynu cymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r cynnig â newidiadau, ac wrth benderfynu bydd yn rhoi ystyriaeth i unrhyw wrthwynebiadau statudol a ddaeth i law.<br><br>Ar ôl penderfynu ynghylch y cynigion rhoddir gwybod i'r holl bartïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. | **Mawrth 2027**<br><br>Bydd penderfyniad yn cael ei wneud cyn pen 16 wythnos ar ôl diwedd y cyfnod gwrthwynebu |

## Asesiad Effaith Integredig

Mae asesiad effaith integredig cychwynnol wedi'i gynnal i'n helpu i sicrhau ein bod wedi ystyried sut y gallai ein cynigion effeithio ar wahanol grwpiau a gwasanaethau, gan ein galluogi i gryfhau agweddau cadarnhaol a lliniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl. Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, bydd yr asesiad hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru ar adegau allweddol yn ôl yr angen.

Mae'r asesiad effaith integredig hwn yn ymgorffori gofynion y Deddfau canlynol mewn un Asesiad Effaith:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Deddf Cydraddoldeb 2010
- Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol 2021
- Mesur y Gymraeg 2011 a Safonau'r Gymraeg
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau
- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

## Atodiad A - Ffurflen Ymateb

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn ymgynghori ar y cynnig i:

- Symud Ysgol Heol Goffa i safle newydd a chynyddu nifer y lleoedd i 150

Mae'r ffurflen ymateb ganlynol yn caniatáu i chi wneud sylwadau ar y cynnig a'r opsiynau eraill, ac awgrymu opsiynau eraill.

Gallwch chi gyflwyno eich barn o blaid neu yn erbyn y cynnig.

Ni fydd yr ymatebion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol. Os dymunwch wrthwynebu, bydd angen i chi wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol.

---

1. Ydych chi'n ymateb fel:

☐ Rhiant/gofalwr neu warcheidwad ☐ Darpar riant/gofalwr neu warcheidwad

☐ Llywodraethwr ☐ Staff

☐ Aelod o'r gymuned ☐ Cyngor Cymuned

☐ Arall: Nodwch ________________________________

2. Ydych chi'n cefnogi'r cynnig?

☐ Ydw ☐ Nac ydw

3. Mae croeso i chi rannu unrhyw sylwadau neu resymau dros eich ateb, gan gynnwys unrhyw effeithiau rydych chi'n meddwl y gallai'r cynnig ei gael (dewisol).

4. Oes unrhyw opsiynau eraill y dylai'r Awdurdod Lleol fod yn eu hystyried ar gyfer Ysgol Heol Goffa yn eich barn chi?

☐ Oes ☐ Nac oes

Os oes, esboniwch yr opsiwn arall/opsiynau eraill:

| |
|---|
| |

5. Yn ôl Safonau'r Gymraeg mae'n ofynnol i ni ystyried effeithiau unrhyw benderfyniadau polisi ar y Gymraeg.

a. Yn eich barn chi, pa effeithiau cadarnhaol neu niweidiol fyddai'r cynnig hwn yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

| |
|---|
| |

b. Yn eich barn chi, sut allai'r cynnig gael ei lunio neu ei newid fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol neu fwy cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

c. Yn eich barn chi, sut allai'r cynnig gael ei lunio neu ei newid fel na fyddai'n cael effaith niweidiol neu'n cael effaith lai niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

6. Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi a fydd yn crynhoi'r materion a nodwyd gan yr ymgyngoreion ac ymateb yr Awdurdod Lleol i'r materion hynny.

Hoffech chi gael gwybod am gyhoeddi'r Adroddiad Ymgynghori:

☐ Hoffwn ☐ Na hoffwn

Os hoffech chi gael gwybod, rhowch gyfeiriad e-bost neu gyfeiriad post a dewis iaith (Cymraeg/Saesneg):

Diolch am lenwi'r ffurflen ymateb.

Dylid anfon ffurflenni ymateb wedi'u llenwi i'r cyfeiriad canlynol:

Mr Owain Lloyd,
Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden,
Rhiw'r Castell,
Neuadd y Sir,
SA31 1JP

neu eu hanfon mewn e-bost i MEPConsultations@sirgar.gov.uk

Fel arall, gallwch chi lenwi'r ffurflen hon ar-lein AROLWG SNAP